## Llywodraeth Cymru

## Asesiad Effaith Integredig

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | **Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth:**<br><br>• **Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru**<br>• **Y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth**<br>• **Y Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)** |
| **Swyddogion sy'n llunio'r Asesiad Effaith Integredig** | **Bethan Jones Edwards**<br>**Tom Cleaver**<br>**Huw Gwyn Jones**<br>**Angharad Clarke**<br>**Tim Snell**<br><br>**Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio** |
| **Adran:** | **Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Uwch-swyddog Cyfrifol** | **Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru** |
| **Y Gweinidog â chyfrifoldeb:** | **Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Dyddiad Cychwyn:** | **Hydref 2022** |

## Cynnwys

**Adran 1:Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu hystyried a pham? ............ 1**

Cyflwyniad ............ 1

Cynigion Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ............ 1

Y Fframwaith Cenedlaethol ............ 1

Y Swyddfa Genedlaethol ............ 2

Y Cod Rhan 2 ............ 2

Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Pum ffordd o weithio ............ 2

Hirdymor ............ 3

Atal ............ 4

Integreiddio ............ 5

Y Fframwaith Cenedlaethol ............ 5

Y Swyddfa Genedlaethol ............ 6

Y Cod Rhan 2 ............ 7

Cydweithio ............ 8

Y Fframwaith Cenedlaethol ............ 8

Y Swyddfa Genedlaethol ............ 8

Y Cod Rhan 2 ............ 9

Cyfranogiad ............ 10

Y Fframwaith Cenedlaethol ............ 10

Y Swyddfa Genedlaethol ............ 11

Y Cod Rhan 2 ............ 11

Effaith ............ 12

Y Fframwaith Cenedlaethol ............ 12

Y Swyddfa Genedlaethol ............ 13

Y Cod Rhan 2 ............ 13

Costau ac Arbedion ............ 14

Y Fframwaith Cenedlaethol ............ 14

Y Swyddfa Genedlaethol ............ 16

Y Cod Rhan 2 ............ 16

Mecanwaith ............ 17

**Adran 7:Cofnod o'r asesiadau effaith llawn sy'n ofynnol ............ 18**

**Adran 8:Casgliad ............ 18**

Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cyfrannu at y gwaith o'i ddatblygu? ............ 18

Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol? ............ 18

Y Fframwaith Cenedlaethol ........ 18
Y Swyddfa Genedlaethol ........ 2
Y Cod Rhan 2 ........ 2
Yng ngoleuni’r effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a’r saith nod llesiant; a/neu’n osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol? ........ 3
Sut caiff effaith y cynnig ei monitro a’i gwerthuso wrth i’r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau? ........ 3
Y Fframwaith Cenedlaethol ........ 3
Y Swyddfa Genedlaethol ........ 4
Y Cod Rhan 2 ........ 4
**Adran 9:Datganiad ........ 4**

## Adran 1: Pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu hystyried a pham?

### Cyflwyniad

1.1. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud â'r elfennau canlynol o raglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru:

- Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru ('y Fframwaith Cenedlaethol')
- Y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth ('y Swyddfa Genedlaethol')
- Y Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) ('Cod Rhan 2').

1.2. Caiff y rhain eu crynhoi isod, ynghyd ag esboniad o resymau Llywodraeth Cymru dros eu datblygu.

1.3. Cyhoeddwyd fersiwn o'r Asesiad Effaith Integredig hwn i gefnogi'r gwaith o osod Cod Ymarfer gerbron y Senedd ar y Fframwaith Cenedlaethol newydd a Chod Rhan 2 diwygiedig ym mis Mawrth 2024, a chyn sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol ym mis Ebrill 2024. Cafodd y codau hyn eu tynnu'n ôl gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol i'w diwygio yng ngoleuni'r adroddiadau gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mis Ebrill. Ailosodwyd y codau drafft diwygiedig ar 11 Mehefin 2024.

1.4. Mae elfennau eraill o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, a oedd hefyd yn destun ymgynghoriad yn ystod haf 2023, yn cael eu datblygu ar amserlenni gwahanol ac felly nid ydynt yn rhan o'r Asesiad Effaith hwn. Y rhain yw Fframwaith Cyflogau a Dilyniant Gyrfa y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol; diwygiadau i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 a Chanllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth; a newidiadau i'r Cod Ymarfer Rhan 8 ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol.

### Cynigion Ailgydbwyso Gofal a Chymorth

<u>Y Fframwaith Cenedlaethol</u>

1.5. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi fel Cod Ymarfer newydd o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014'). Mae'n sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth yng Nghymru gan awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae hyn yn cynnwys amlinellu egwyddorion a safonau cenedlaethol y mae'n rhaid i gomisiynwyr eu dilyn wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth ar gyfer eu poblogaethau lleol.

1.6. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ailgydbwyso'r sylfaen ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth cymdeithasol a thrwy symud oddi wrth bris tuag at

ansawdd a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'n darparu ar gyfer gwell cysondeb a mwy o dryloywder yn y cylch comisiynu.

Y Swyddfa Genedlaethol

1.7. Mae cynigion y Swyddfa Genedlaethol yn nodi swyddogaethau disgwyliedig y Swyddfa Genedlaethol, unwaith y bydd wedi'i sefydlu. Cynigiwyd tair swyddogaeth graidd i'r Swyddfa Genedlaethol: rheoli prosesau goruchwylio a chydymffurfio â'r Fframwaith Cenedlaethol; datblygu, gweithredu a darparu'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn barhaus; a chefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn ei rôl.

1.8. Y bwriad yw y bydd sefydlu un Swyddfa Genedlaethol yn cynorthwyo'r sector i ddatblygu mentrau gofal cymdeithasol cenedlaethol, unwaith i Gymru, gan ddarparu arweinyddiaeth gref o'r canol. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn darparu arweiniad canolog i'r sector gofal cymdeithasol hefyd drwy sbarduno gwelliant yn y ddarpariaeth genedlaethol o ofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn sicrhau canlyniadau, mynediad a phrofiad gwell a mwy cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Y Cod Rhan 2

1.9. Mae'r Cod Rhan 2 yn nodi sut y dylai personau sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth.

1.10. Mae'r ddogfen hon yn fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cod Rhan 2 a gyhoeddwyd yn 2015. Gwnaed newidiadau i ailstrwythuro'r ddogfen er mwyn cael mwy o eglurder, yn enwedig yn ymwneud â dyletswydd awdurdod lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, yng ngoleuni polisi Llywodraeth Cymru o ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol. Mae pennod newydd yn rhoi mwy o amlygrwydd i'r angen am ddull sy'n seiliedig ar werthoedd cydgynhyrchu hefyd. Gwnaed rhai newidiadau i'r bennod ar asesiadau o anghenion y boblogaeth, er mwyn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o ymarferion blaenorol; ac i'r bennod ar wasanaethau ataliol, sydd bellach yn cynnwys gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae'r rhain yn adlewyrchu newidiadau i'r cyd-destun polisi ers cyhoeddi'r Cod gwreiddiol, ac arferion da sy'n datblygu ers i Ddeddf 2014 gael ei gweithredu.

**Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Pum ffordd o weithio**

1.11. Mae'r adran hon yn nodi sut mae pob un o elfennau unigol y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol'). Y pum ffordd o weithio canlynol yw'r meysydd penodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried er mwyn dangos eu bod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

a) Hirdymor
b) Atal
c) Integreiddio
d) Cydweithio
e) Cyfranogiad

<u>Hirdymor</u>

1.12. Bydd holl elfennau'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn cael eu heffeithio i wahanol raddau gan dueddiadau, heriau a chyfleoedd hirdymor sy'n effeithio ar y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Caiff y rhain eu crynhoi isod.

*Newid yn y boblogaeth ac anghenion cynyddol*

1.13. Mae angen cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rhagwelir y bydd cyfran y bobl dros 75 oed yng Nghymru yn cynyddu o 9.9% o'r boblogaeth yn 2021 i 13.8% yn 2041, gan godi o tua 307,000 o bobl i tua 455,000 o bobl. Disgwylir i gyfran y bobl 65 oed neu'n hŷn gynyddu o ychydig dros un o bob pump o'r boblogaeth yn 2021 (neu 21.4%) i dros un o bob pedwar o'r boblogaeth erbyn 2041 (neu 25.5%). Er na ellir cysylltu'r galw am ofal ffurfiol yn y dyfodol â phoblogaeth sy'n heneiddio yn unig, mae'n debygol o arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau gofal ffurfiol. Mae mwy o bobl yn byw o'u genedigaeth gyda chyflyrau sydd angen mathau o ofal gydol oes, ac mae nifer uchel o blant sy'n derbyn gofal. Mae'r pwysau a ddaeth yn sgil y newidiadau hyn mewn demograffeg yn gosod y cyd-destun, yn rhannol, ar gyfer pob un o'r eitemau sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.

*Heriau ariannu*

1.14. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn ganran uwch o wariant cyffredinol llywodraeth leol. Mae costau comisiynu a chwyddiant cyflogau yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r galw cynyddol ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol i'r Fframwaith Cenedlaethol.

*Heriau'r farchnad gofal a chymorth*

1.15. Mae'r ystad ofal yng Nghymru yn cynnwys darparwyr preifat llai yn bennaf, gydag elw bach a chronfeydd cyllid cyfyngedig. Mae mwy o oedolion yn derbyn gofal a chymorth gartref lle bo hynny'n bosibl, yn unol â'r hyn sy'n bwysig iddynt. Mae hyn wedi creu lefel o alw sy'n fwy na maint y ddarpariaeth gofal cartref sydd ar gael. Yn aml, mae'r gyfran fwyaf o oedi wrth drosglwyddo gofal o ysbytai wedi'i briodoli i bobl sy'n aros i ddychwelyd i'w cartrefi gyda phecynnau gwasanaethau gofal cartref wedi'u trefnu. Mae'r problemau hyn yn arbennig o berthnasol i'r Cod Rhan 2, mewn perthynas â sut mae'r diweddariad i'r Cod yn nodi'n gliriach gyd-destun polisi Llywodraeth Cymru o ran ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol.

Comisiynu a chymhlethdod

1.16. ‘Comisiynydd’ yw’r term sy’n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio staff o’r awdurdod lleol neu fwrdd iechyd sy’n gyfrifol am sicrhau bod y math cywir o ofal ar gael i bobl yn eu hardal. Mae’r comisiynwyr gofal cymdeithasol yn dadansoddi angen, yn trefnu a chynllunio darpariaeth briodol o wasanaethau, yn sicrhau’r ddarpariaeth honno ac yn monitro ansawdd a dull cyflawni’r ddarpariaeth yn barhaus.

1.17. Mae comisiynwyr yng Nghymru’n caffael gwasanaethau ac yn gwneud trefniadau rheoli contractau yn bennaf. Mae hyn yn heriol, oherwydd cymhlethdod y farchnad, ac mae wedi arwain at ddarparu gormod neu ddim digon o wasanaethau gofal a chymorth.

1.18. Er mwyn ymateb i’r heriau uchod, mae’r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio sicrhau cysondeb o ran arferion comisiynu, a sicrhau bod gwaith comisiynu’n cael ei wneud gan ddilyn safonau ac egwyddorion a bennir yn genedlaethol.

<u>Atal</u>

1.19. Mae’r adran flaenorol yn crynhoi’r heriau allweddol ym maes gofal cymdeithasol sy’n ymwneud â’r cynigion hyn. Ni all unrhyw ymyrraeth neu gynnyrch unigol fynd i’r afael yn llawn â’r achosion sylfaenol hyn. Fodd bynnag, bydd yr eitemau unigol o dan y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn cyfrannu at fynd i’r afael â’r rhain mewn ffordd ataliol ac ymateb iddynt fel a ganlyn:

*Y Fframwaith Cenedlaethol*

1.20. Gall y Fframwaith Cenedlaethol arwain at effeithlonrwydd posibl yn y tymor hwy drwy sbarduno cysondeb gwell mewn prosesau comisiynu mewn ffordd ragweithiol. Hefyd, mae’r Fframwaith Cenedlaethol yn ceisio ailgydbwyso’r sail ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau a gwerth cymdeithasol a thrwy symud oddi wrth bris tuag at ansawdd. Gall y newid hwn i fodel sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau ac ansawdd gael effaith ataliol o ran darparu gofal o ansawdd uwch sy’n cyfateb yn well i anghenion unigol pobl, gan arwain at ganlyniadau gwell i bobl yn y tymor hwy o bosibl. Gallai hyn arwain at ostyngiadau o ganlyniad i’w hanghenion am ofal a chymorth mwy helaeth yn y dyfodol, oherwydd bod y Fframwaith Cenedlaethol yn golygu bod eu hanghenion yn cael eu nodi a’u rheoli’n well.

*Y Swyddfa Genedlaethol*

1.21. Un o brif amcanion y Swyddfa Genedlaethol fydd hyrwyddo a chefnogi ymyrraeth gynnar ac atal. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn galluogi, cynghori, cefnogi a gweithredu i sicrhau bod blaenoriaeth o’r fath yn cael ei chyflawni.

1.22. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ceisio sicrhau capasiti ac arbenigedd hefyd er mwyn helpu i weithredu polisïau cenedlaethol a sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol yn dryloyw ac yn eglur. I wneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn hwyluso cydweithio rhwng y system / dysgu a rennir â phartneriaid lleol / rhanbarthol i rannu arferion gorau a pharhau i gefnogi arloesedd lleol / rhanbarthol ar yr un pryd. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn darparu cyfeiriad ar lefel genedlaethol hefyd er mwyn cynorthwyo arweinyddiaeth yn y system gofal cymdeithasol, gan hwyluso a chefnogi'r sector ac, os oes angen, darparu arweinyddiaeth gryfach i'r sector ar waith gwella a thrawsnewid yn unol â phriodweddau a safonau cenedlaethol.

*Y Cod Rhan 2*

1.23. Mae'r Cod Rhan 2 yn cynnwys pennod sy'n nodi'n benodol y gofynion i awdurdodau lleol a phartneriaid ddarparu neu drefnu casgliad o wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar integredig. Mae'r cod diwygiedig wedi ceisio cryfhau ac egluro'r gofynion yn y bennod hon, yn enwedig yng ngoleuni'r modelau newydd o ofal integredig.

1.24. Mae'r diwygiadau'n rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am gydgynhyrchu gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Gall cydgynhyrchu gwasanaethau gofal a chymorth gyda defnyddwyr gwasanaethau gael effaith ataliol gan fod gwasanaethau a gaiff eu cynllunio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaethau'n cyd-fynd yn well â'u hanghenion gofal a chymorth fel arfer, ac felly'n fwy tebygol o ddiwallu eu hanghenion yn y tymor hwy a lleihau'r tebygolrwydd y bydd eu hiechyd a'u lles yn dirywio.

1.25. Mae'r diwygiadau'n ceisio egluro'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol hefyd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Bydd hyrwyddo mwy o gyfranogiad gan y trydydd sector yn y farchnad gofal cymdeithasol yn cael effaith fuddiol ar atal ac ymyrraeth gynnar, gan fod llawer o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan bartneriaid yn y trydydd sector neu mewn cydweithrediad â nhw.

**Integreiddio**

1.26. Mae'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn cysylltu â nifer o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu, ac yn eu symud yn eu blaen. Fe'u rhestrir fesul eitem unigol isod:

<u>Y Fframwaith Cenedlaethol</u>

1.27. Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cyfrannu at amrywiaeth o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys diwygiadau mewn gwasanaethau plant, a gwasanaethau gofal yn rhan o'r Economi Sylfaenol yng Nghymru; a bydd yn gam cyntaf allweddol arwyddocaol tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Bydd y Cod hwn yn cynorthwyo awdurdodau lleol a'r GIG i

gomisiynu gwasanaethau yn unol ag uchelgeisiau Deddf 2014, a gwella canlyniadau i bobl Cymru. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn nodi'r egwyddorion a'r safonau i gomisiynwyr eu dilyn wrth gomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion poblogaethau lleol, felly bydd yn enghraifft o'r pum ffordd o weithio yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyd-fynd â'r weledigaeth a nodir yn Neddf 2014.

<u>Y Swyddfa Genedlaethol</u>

1.28. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cyd-fynd ag amcanion traws-system a, lle bynnag y bo'n berthnasol, yn galluogi cyflawni'r amcanion traws-system hynny, gan gynnwys:

- Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu
- Ymrwymiadau'r Cytundeb Cydweithio
- Y pum ffordd o weithio sydd yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol
- Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol o dan Safonau'r Gymraeg Gweinidogion Cymru, gan wneud gwaith allweddol i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, gan gydnabod bod y Gymraeg yn perthyn i bawb a nodi pwysigrwydd dewis iaith ac angen wrth ddarparu gofal a chymorth o ansawdd sy'n cyd-fynd â fframwaith Mwy na Geiriau
- Cymru Iachach.

1.29. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn ei hyrwyddo, gan wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn hyrwyddo prosesau gweithio gwell gyda phobl, cymunedau a phartneriaid ac yn ceisio atal problemau a gweithredu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

1.30. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 'egwyddor datblygu cynaliadwy', felly mae cynaliadwyedd gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol yn hollbwysig. Bwriedir i'r Swyddfa Genedlaethol weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod gwaith i ddiwallu anghenion gofal a chymorth presennol yn gwella rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

1.31. Bydd y weledigaeth ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn cael ei phrofi er mwyn sicrhau cysondeb parhaus â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cyd-fynd â 'Cymru Iachach', ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgorffori pedair egwyddor sylfaenol Deddf 2014: llais a rheolaeth, atal ac ymyrraeth gynnar, llesiant, a chydgynhyrchu. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy swyddogaethau craidd y Swyddfa Genedlaethol a rolau a chyfrifoldebau ychwanegol, megis casglu data a gwybodaeth. Y swyddfa fydd yn gwneud y gwaith hwn.

1.32. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gwreiddio ac yn cefnogi'r fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg, *Mwy na Geiriau 2022-27*. Wrth wneud hyn, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn

gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynorthwyo siaradwyr Cymraeg i dderbyn gofal yn eu hiaith gyntaf.

1.33. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gwreiddio newid drwy hyrwyddo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ er mwyn gwreiddio newidiadau a gwerthoedd ystyrlon fel rhan o fywyd Cymru. Bydd y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gweithredu fel sbardun i sicrhau arweinyddiaeth amlwg ar bob lefel er mwyn gwireddu ymrwymiadau presennol a herio hiliaeth ac wrth ddarparu gwasanaethau teg, sy'n briodol yn ddiwylliannol, gan gydnabod croestoriadedd a gwahaniaethau ymysg grwpiau. Mae hawliau LHDTC+ wedi'u gwreiddio yn ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac maent yn elfen allweddol o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, a gafodd ei ddatblygu gyda'r nod o sicrhau mai Cymru yw'r genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop, yn nodi camau gofal cymdeithasol a lles, a bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cyflawni rôl allweddol i sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

1.34. Er mwyn cyfrannu at Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn effro i'r targed sero net ar gyfer y sector cyhoeddus yn 2030, a bydd yn hyrwyddo cynlluniau gweithredu datgarboneiddio a gwerth cymdeithasol er mwyn cyflawni hyn.

<u>Y Cod Rhan 2</u>

1.35. Mae diwygiadau i'r Cod Rhan 2 yn cynnwys diweddaru'r gofynion ynghylch cynnal asesiadau o anghenion y boblogaeth, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu cynnal ar y cyd ar ôl troed rhanbarthol. Yn ogystal ag asesu'r angen am ofal a chymorth, rhaid i'r asesiadau hyn nodi hyd a lled a lefel y gwasanaethau fydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny hefyd, a rhaid iddynt gynnwys gwasanaethau a dulliau integredig. Mae'r diwygiad yn cryfhau'r gofynion a'r canllawiau ynghylch darparu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar integredig hefyd.

1.36. Cynhelir yr asesiadau o anghenion y boblogaeth ar sail ranbarthol, ac mae Pennod 2B yn ganllaw statudol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd wrth ymgymryd â'r adroddiadau ar y cyd a'u cyhoeddi. Un o amcanion strategol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, fel y nodir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, yw sicrhau bod y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ymateb i'r asesiad o anghenion y boblogaeth ac yn gweithredu'r cynllun ardal ar y cyd. Mae'r Rheoliadau hyn a'r Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth yn cael eu diwygio hefyd fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, a byddant yn cael eu gosod gerbron y Senedd yn nhymor yr hydref.

**Cydweithio**

Y Fframwaith Cenedlaethol

1.37. Gan fod y Cod hwn yn ymwneud â'r broses o gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth, y partneriaid statudol a fydd â diddordeb a rennir fydd awdurdodau lleol a'r GIG, gan mai nhw sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol. Gan fod cyfran uchel o wasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu cyflawni gan ddarparwyr preifat a thrydydd sector, bydd gan amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau ddiddordeb a rennir yn y Cod hwn hefyd a gall fod yn ofynnol i'r comisiynwyr gyflawni rhai agweddau ar y Cod i'w darparwyr gwasanaethau drwy eu trefniadau cytundebol. Yn yr un modd, oherwydd cynnwys y Cod a'r safonau sydd ynddo, bydd diddordeb a rennir gan nifer o randdeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru o safbwynt rheoleiddiol; sefydliadau cenedlaethol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; yn ogystal â sefydliadau rhanbarthol a lleol.

1.38. Er mwyn datblygu'r polisi, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Grŵp Technegol Cenedlaethol o gynrychiolwyr o sefydliadau sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn comisiynu a chaffael gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bu'r Grŵp Technegol yn llywio cynnwys y Cod a gwneud argymhellion ar y cynnwys. Bydd yr ymgynghoriad yn gyfle i'r holl bartneriaid, rhanddeiliaid a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau lywio'r Cod.

Y Swyddfa Genedlaethol

1.39. Er mwyn helpu i sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol, cafodd Grŵp Llywio ei ffurfio. Bu'r Grŵp Llywio hwn yn gweithredu fel fforwm cynghori yn ystod cam datblygu'r Swyddfa Genedlaethol, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r rhanddeiliaid canlynol:

- Gweithrediaeth y GIG
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- ADSS Cymru
- CLlLC
- Conffederasiwn GIG Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, Y Bwrdd Gweithredol
- Byrddau Iechyd Lleol y GIG
- Fforwm Gofal Cymru

1.40. Yr hyn sy'n hollbwysig wrth i'r gwaith fynd rhagddo yw y bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio'n agos gyda'r 22 awdurdod lleol a'u timau gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan Lywodraeth Leol gyfrifoldebau statudol i ddarparu gofal a chymorth digonol er mwyn diwallu anghenion llesiant pobl. Mae gwreiddiau gofal cymdeithasol mewn llywodraeth leol, felly mae galluogi system gymhleth, gan gynnwys rôl y GIG wrth gomisiynu

lefelau sylweddol o ofal a chymorth, er mwyn gweithio ar y cyd, yn ganolog i'n gweledigaeth.

1.41. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cynnwys yn gyfartal y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol, a rhanddeiliaid drwy ofyn am adborth a mewnbwn i waith y Swyddfa Genedlaethol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn ei rôl. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cynorthwyo'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn uniongyrchol i bennu cyfeiriad strategol a chryfhau arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a chefnogi gwaith gwella ansawdd er mwyn gwella canlyniadau i bobl.

1.42. Yn ogystal â chefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn ymgysylltu ac yn cyd-ddylunio â phobl sy'n derbyn gwasanaethau, ac â'r gweithlu gofal cymdeithasol, er mwyn nodi ac ysgogi gwelliannau. Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn hollbwysig hefyd. Gofal Cymdeithasol Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu, ac mae'n cyflawni swyddogaethau gwella allweddol. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ledaenu negeseuon cadarnhaol am weithio ym maes gofal cymdeithasol, ac am weithgarwch gwella sy'n gyson â'i rôl ei hun wrth oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol, a thrwy gasglu data a gwybodaeth ehangach am y sector.

1.43. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cydweithio â Gweithrediaeth GIG Cymru er mwyn hyrwyddo'r broses o integreiddio gwasanaethau i greu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor, gan ddarparu cyfeiriad cenedlaethol i wella canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

<u>Y Cod Rhan 2</u>

1.44. Datblygwyd y diwygiadau arfaethedig i bennod 4 Cod Rhan 2, ar ddyletswydd awdurdod lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol ac ati, mewn trafodaeth â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais. Roedd y geiriad newydd ynghylch y gwerth 'cymdeithasol / ychwanegol' yn manteisio ar y gwaith a gomisiynwyd gan Campa (Canolfan Cydweithredol Cymru gynt) a'i brofi gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r Grŵp Technegol a oedd yn datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer comisiynu gofal a chymorth. Mae'r cod diwygiedig yn ailadrodd yr angen i bob rhanbarth fod â fforwm neu fforymau sy'n dod â chomisiynwyr a sefydliadau adran 16 ynghyd i rannu arferion da a manteisio ar gyfleoedd yn y farchnad i ehangu a hyrwyddo'r sector hwn. Datblygwyd y bennod 5 newydd ar gydgynhyrchu gyda chymorth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ymgysylltu a Llais, a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwr di-dâl sy'n aelodau o Fyrddau Partneriaeth Ranbarthol. Bu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn helpu i ddatblygu'r deunydd ar ymgysylltu a chydgynhyrchu yng Nghanllawiau Statudol Rhan 9 hefyd, gan helpu i sicrhau diffiniadau a dulliau cyffredin o ymdrin ag ymarfer cydgynhyrchu ar lefel ranbarthol a lleol.

**Cyfranogiad**

Y Fframwaith Cenedlaethol

1.45. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Cenedlaethol, gofynnwyd i sefydliadau a phartneriaid sy'n cynrychioli'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth roi eu barn a llywio'r Cod Ymarfer drafft.

1.46. Mae'r hyn sy'n bwysig i bobl yn allweddol yng nghyd-destun comisiynu gwasanaethau ac mae'r datganiad canlynol sydd wedi'i gynnwys mewn nifer o Godau Ymarfer o dan Ddeddf 2014 wedi'i addasu ymhellach ac mae'n ganolog i'r ethos yn y Cod drafft:

*"Mae fy ngofal yn cael ei gynllunio gennyf i, gyda phobl yn cydweithio i'm deall i, fy nheulu a'm gofalwyr (a'n hanghenion), gyda fy muddiannau pennaf i yn ganolog i hynny, gan roi llais, dylanwad a rheolaeth i mi, gan ddwyn ynghyd y gwasanaethau a'r rhwydweithiau cymorth fydd yn cyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i mi."*

1.47. Felly, mae comisiynu ar gyfer canlyniadau'n allweddol yn y Cod drafft hwn, yn ogystal â sicrhau arferion comisiynu cynaliadwy.

1.48. Yn ehangach, roedd gan y gwaith a oedd yn cael ei arwain drwy'r Grŵp Technegol Cenedlaethol a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen aelodaeth o bob rhan o'r sectorau yng Nghymru. Rydym wedi ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad 2023 ac rydym wedi ystyried yr hyn mae comisiynwyr wedi'i ddweud wrthym hefyd ar ôl cwblhau arolwg Comisiynu a gynhaliwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

1.49. Yn ogystal â chydweithio sylweddol gydag aelodau o'r Grŵp Technegol Cenedlaethol, cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori yn ystod haf 2023: digwyddiad rhithwir ar-lein gyda rhanddeiliaid o'r Gogledd a digwyddiad wyneb yn wyneb yng Nghaerdydd. Yn y naill ddigwyddiad a'r llall, cyflwynodd arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru gyflwyniad yn rhoi trosolwg o'r Fframwaith Cenedlaethol, gyda sesiwn holi ac ateb i ddilyn.

1.50. Yn nigwyddiad Caerdydd, roedd dau weithdy lle cafodd cyfranogwyr gyfle i drafod yr egwyddorion a'r safonau arfaethedig gyda chydweithwyr o bob rhan o'r sector i helpu i lywio eu hymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ac i Lywodraeth Cymru egluro unrhyw gwestiynau. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys trosolwg manylach o'r egwyddorion a'r safonau yn y Fframwaith Cenedlaethol. Daeth cynrychiolaeth eang o bob rhan o'r sector i'r gweithdai.

1.51. Cafwyd cefnogaeth gadarnhaol i'r egwyddorion a'r safonau gan randdeiliaid, ond nodwyd heriau mewn perthynas â'r effaith ar gyllid a'r gweithlu, yn ogystal ag o ran gweithredu.

1.52. Trefnwyd cyfarfodydd ychwanegol yn ogystal â'r prif ddigwyddiadau ymgynghori hyn. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod y Dirprwy Weinidog gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a swyddogion yn cyfarfod ag

Age Alliance Wales, Cartrefi Cymunedol Cymru, cymdeithasau tai eraill ac Age Cymru, lle trafodwyd safbwyntiau a materion rhanddeiliaid. Mae swyddogion wedi cyfarfod ag Amanda Mutlow, Cyfarwyddwr Strategol Llais hefyd, a chafwyd trafodaethau pwysig ynghylch sut i sicrhau bod lleisiau gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad. Mae Tabl 1 isod yn crynhoi'r cyfarfodydd a gynhaliwyd. Mae swyddogion wedi gwneud cyflwyniadau ar y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yng nghyfarfod y Fforwm Gwaith Teg hefyd.

1.53. Mae rhestr o'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed gan dîm polisi'r Fframwaith Cenedlaethol i'w weld yn Nhabl 1, sydd ynghlwm wrth yr Asesiad Effaith Integredig hwn.

Y Swyddfa Genedlaethol

1.54. Mae grŵp llywio ymgynghorol, yn cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid (a restrir yn yr adran 'Cydweithio' uchod), wedi bod yn rhan o ddatblygiad y Swyddfa Genedlaethol fel rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso yn ei ffurf bresennol. Cyn hyn, cafodd rhanddeiliaid a dinasyddion gyfle i ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ym mis Ionawr 2021 drwy'r cwestiwn a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar sefydlu Swyddfa Genedlaethol.

1.55. Yn ehangach, er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o ffurf a swyddogaeth Swyddfa Genedlaethol, rydym wedi ymgysylltu â'r canlynol hefyd:

- Cyfarwyddwyr a Dirprwy Gyfarwyddwyr yn y Grŵp IGC, Llywodraeth Cymru
- Arweinwyr rhaglen Gweithrediaeth y GIG
- Maethu Cymru a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Bwrdd Gweithredol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol
- CLlLC
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- ADSS Cymru
- Conffederasiwn GIG Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol y GIG
- Fforwm Gofal Cymru

Y Cod Rhan 2

1.56. Mae gan y Cod Rhan 2 diwygiedig bennod newydd ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu, sy'n diweddaru, cryfhau a rhoi mwy o amlygrwydd i ddeunydd yn y cod presennol. Mae'r bennod hon yn manteisio ar ddeunydd o bennod 4 bresennol y Cod fel y'i cyhoeddwyd yn 2015, ac fe'i trafodwyd gan y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ar Ailgydbwyso'r Farchnad Gofal Cymdeithasol ac ar Ymgysylltu a Llais. Cytunodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bod y negeseuon hyn wedi'u nodi'n glir a byddant yn arbennig o berthnasol i'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn arfer eu dyletswyddau.

Mae negeseuon tebyg wedi'u hymgorffori yn y Canllawiau Statudol Rhan 9 diwygiedig ar Drefniadau Partneriaeth, sydd wedi'u bwriadu ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Effaith**

1.57. Yn ogystal â'r pum ffordd o weithio uchod, rydym wedi dechrau ystyried effaith bosibl y cynigion hefyd, gan gynnwys y prif ddadleuon o blaid ac yn erbyn y cynigion.

Y Fframwaith Cenedlaethol

1.58. Mae Deddf 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru. Mae'n diffinio llesiant ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad o ganlyniadau llesiant i'w cyflawni. Mae'r datganiad hwn yn diffinio canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru, gan gynnwys pobl mewn grwpiau gwarchodedig.

1.59. Drwy bennu egwyddorion a safonau comisiynu cenedlaethol, nod y Fframwaith Cenedlaethol yw galluogi awdurdodau lleol a phartneriaid i gyflawni eu swyddogaethau fel bod pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn gallu cyflawni eu llesiant.

*Cryfhau amcanion y Ddeddf*

1.60. Drwy osod gofynion a chanllawiau statudol pellach ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG mewn perthynas â chanolbwyntio comisiynu ar ansawdd a chanlyniadau, bydd y Cod yn helpu i gyflymu nod arfaethedig Deddf 2014 i symud i ddull sy'n rhoi pobl yn y canol, y canlyniadau y maent am eu cyflawni, a rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt.

1.61. Bydd darpariaethau'r Fframwaith mewn perthynas â chyflogau yn helpu amcanion ehangach Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o gysondeb i'r gweithlu sy'n darparu gofal a chymorth. Mae'r darpariaethau yn y Fframwaith i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol yn bwysig gan fod cysondeb yn y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael effaith sylweddol ar gyflawni canlyniadau pobl. Drwy gefnogi'r gweithlu, nod y Fframwaith Cenedlaethol yw hwyluso llai o drosiant a fydd yn caniatáu i bobl feithrin perthynas â phobl sy'n darparu gofal a chymorth, teimlo'n fwy diogel, gan wella ansawdd canlyniadau gofal cymdeithasol a llesiant. Mae hyn yn golygu bod pobl yn fwy tebygol o weld yr un person, gan gynyddu eu gallu i gynnal perthynas sy'n gallu lleihau unigrwydd ac unigedd, ac arwain at ofal o ansawdd uwch.

1.62. Nod cyflwyno egwyddorion a safonau comisiynu cenedlaethol yw lleihau cymhlethdod a symleiddio prosesau a fydd yn galluogi partneriaid i wneud gwell defnydd o adnoddau ar y cyd, ar draws ffiniau awdurdodau lleol, mewn ymateb i anghenion a chanlyniadau'r boblogaeth. Gall dileu rhywfaint o ddyblygu ac aneffeithlonrwydd yn y broses gomisiynu ryddhau amser

comisiynwyr i ddatblygu elfennau eraill o'r cylch comisiynu sydd wedi'u nodi fel rhai llai datblygedig na rhannau eraill. Bydd ffocws yr egwyddorion a'r safonau ar werth cymdeithasol yn helpu i sicrhau bod comisiynu gwerth cymdeithasol yn cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau, ac yn gwneud defnydd llawn o'r asedau sy'n bodoli mewn cymunedau lleol.

Y Swyddfa Genedlaethol

1.63. Roedd ymatebion o ymgynghoriad y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso ym mis Ionawr 2021 yn nodi ymatebion cymysg gan yr ymatebwyr ynghylch swyddfa genedlaethol. Roedd y rhai a oedd yn betrusgar ynghylch y syniad yn poeni y byddai hyn yn ychwanegu cymhlethdod heb werth ychwanegol, neu'n dyblygu rolau'n ddiangen. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae sefydliad y Swyddfa Genedlaethol wedi ystyried yn ofalus, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, lle y gellir ychwanegu gwerth, pa swyddogaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer y swyddfa a sut i leihau dyblygu. Rydym wedi gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ers ymgynghoriad y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso yn 2021, ac wedi cynnwys rhanddeiliaid yng nghynlluniau sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol, a thrwy ymgysylltu ehangach yn ymgynghoriad y Rhaglen Ailgydbwyso yn 2023. Bydd cydgynhyrchu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaethau'n parhau i fod yn fecanweithiau allweddol ar gyfer ystyried a mesur effaith wrth i'r Swyddfa Genedlaethol aeddfedu.

Y Cod Rhan 2

1.64. Bydd effaith gyffredinol y newidiadau i'r Cod Rhan 2 yn gymharol gyfyngedig ynddo'i hun, gan mai ymarfer atgyfnerthu fu hwn yn bennaf. Fodd bynnag, dylai diwygio'r bennod ar y ddyletswydd adran 16 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, ac egluro'r iaith a'r disgwyliadau ynghylch ailgydbwyso a 'gwerth cymdeithasol / ychwanegol' helpu awdurdodau lleol a'u partneriaid, gan gynnwys darparwyr perthnasol, i groesawu'r cyfleoedd i ddatblygu ac ehangu'r rhan hon o'r farchnad gofal cymdeithasol. Dylai'r bennod newydd ar gydgynhyrchu gael effaith gadarnhaol hefyd o ran hyrwyddo cyfranogiad pobl wrth gynllunio a darparu gwasanaethau integredig, yn enwedig o'u cyfuno â'r pwyslais cryfach ar ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu yng Nghanllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth.

1.65. Yn dilyn ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (a ddaeth i ben ar 16 Ionawr 2024), a'r angen i sicrhau ymateb rhanbarthol strategol i ddigartrefedd, penderfynwyd ychwanegu 'pobl sy'n profi digartrefedd' at y rhestr o grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth ym Mhennod 2 Cod Rhan 2. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i adroddiad asesiad o anghenion y boblogaeth gynnwys asesiad o anghenion iechyd, gofal a chymorth pobl ddigartref. Mae'r rhestr o grwpiau poblogaeth craidd yn cael ei hadlewyrchu yn y canllawiau statudol ac atodol ar gynlluniau ardaloedd ar y cyd hefyd, a fydd yn cael eu diweddaru yn yr un modd cyn i'r cynlluniau nesaf gael eu llunio yn 2028.

**Costau ac Arbedion**

Y Fframwaith Cenedlaethol

1.66. Nod y gofynion a'r canllawiau statudol yn y Cod yw gwella'r ffordd mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu comisiynu ac, yn ei dro, y bwriad fydd cefnogi nodau cyffredinol presennol y system a sefydlwyd gan Ddeddf 2014 h.y. er mwyn sicrhau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth. Bydd hyn yn cynnwys symud y comisiynu oddi wrth bris tuag at ansawdd a gwerth cymdeithasol a hwyluso comisiynu ar y cyd rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ymhellach. O fewn y cyd-destun bod gofal cymdeithasol yn ddibynnol iawn ar ei weithlu, a'r angen i wella cyflogau'r gweithlu a thalu'r cyflog byw gwirioneddol o leiaf i'r gweithlu, mae'n debygol y bydd symud y broses gomisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a sicrhau bod y gweithlu'n cael ei dalu'n iawn yn arwain at gynnydd yn y gost o ddarparu gofal. Bydd angen i'r costau hyn gael eu hadlewyrchu gan gomisiynwyr lleol wrth gomisiynu gwasanaethau.

*Asesiad Effaith Rheoleiddiol*

1.67. Datblygwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol[1] ar gyfer Deddf 2014 ac mae effeithiau disgwyliedig y Fframwaith Cenedlaethol ar bobl yr un fath â'r rhai a nodir yn yr Asesiad hwnnw. Nod y Fframwaith Cenedlaethol yw cyflymu graddfa gwireddu'r effeithiau hyn.

1.68. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol penodol wedi'i gwblhau hefyd ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol ac fe'i nodir yn rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol. At ddibenion asesu costau, buddion a risgiau'r Fframwaith, mae'r 7 egwyddor a'r 10 safon yn y Cod wedi'u grwpio o dan y tair thema ganlynol:

- **Thema 1:** Comisiynu wedi'i ategu gan y gwerthoedd allweddol yn Neddf 2014 (cydgynhyrchu, cydweithio, ymyrraeth gynnar a chynllunio hirdymor)
- **Thema 2:** Gwneud Penderfyniadau wedi'u Llywio gan Dystiolaeth
- **Thema 3:** Comisiynu Seiliedig ar Werth ac Arferion Moesegol

1.69. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ystyried dau opsiwn – **opsiwn 1: gwneud dim**, lle byddai comisiynwyr yn parhau i gomisiynu gofal a chymorth yn unol â'r darpariaethau presennol yn y Ddeddf, ac **opsiwn 2**, yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio a'i argymell: **bwrw ymlaen** â chreu'r Fframwaith Cenedlaethol.

1.70. Ar gyfer **Opsiwn 1: gwneud dim**, daethpwyd i'r casgliad canlynol:

a) nid oes costau ychwanegol o ran cynnal y status quo ond byddai angen parhau i dalu costau cyfredol y system bresennol;

---

[1] https://senedd.cymru/media/2plbn5qs/pri-ld9181-em-e-cymraeg.pdf

b) nid yw'n fuddiol cynnal y status quo o ystyried buddion disgwyliedig y Pecyn Cymorth; a
c) heb y manteision arfaethedig a chryfhau'r system gofal a chymorth y mae disgwyl i'r Cod ei gyflawni, bydd yr arferion comisiynu anghyson a nodwyd yn parhau ac ni fydd amcanion y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn cael eu bodloni.

1.71. **Ar gyfer Opsiwn 2: bwrw ymlaen**, daethpwyd i'r casgliad canlynol:

- nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o ddarpariaethau'r codau o dan y ddwy thema gyntaf wrth iddynt gryfhau, ond nid ydynt yn mynd ymhellach na phrif ofynion y Ddeddf; fodd bynnag, mae gweithredu pob agwedd ar ddarpariaeth y Codau o dan Thema 3 yn llawn yn debygol o olygu goblygiadau cost i gomisiynwyr;
- mae costau ariannol yn gysylltiedig â sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys costau staffio o tua £465K a £25-30K ar gyfer hybu ymwybyddiaeth a hyfforddiant i gomisiynwyr (wedi'i ariannu gan y gyllideb diwygio gofal cymdeithasol).
- bydd y costau platfform a hyfforddiant ar gyfer y pecyn cymorth yn gost-niwtral gan y bydd yn cael ei gynnal ar blatfform cymunedol digidol a gynhelir gan gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru – Gofal Cymdeithasol Cymru;
- mae **manteision** egwyddorion allweddol y Ddeddf (cydgynhyrchu, cydweithredu, ymyrraeth gynnar a chynllunio hirdymor) yn glir o'r dystiolaeth sydd ar gael; fodd bynnag, mae'r gwerthusiad o'r Ddeddf yn dangos y bwlch clir **rhwng** yr egwyddorion a pha mor gyson ac effeithiol maen nhw'n cael eu gweithredu ledled Cymru;
- Bydd y Cod yn cael effaith fuddiol ar ddarparu gofal a chymorth o ystyried y canlynol:

a) mae'n creu ffocws o'r newydd ar yr agweddau hyn o'r Ddeddf ac yn cefnogi comisiynwyr i gymhwyso'r egwyddorion hyn yn fwy cyson ac effeithiol ledled Cymru.
b) bydd pecyn cymorth yn cael ei gynhyrchu law yn llaw â'r Cod hefyd i ddarparu adnoddau ychwanegol i gefnogi comisiynwyr i fodloni'r gofynion hyn;
c) mae'n canolbwyntio'n benodol ar gomisiynu, sef y broses gyffredinol o ddarparu gofal a chymorth ynddi (ac na chyfeirir ati'n benodol yn y Ddeddf); a
d) mae'n crynhoi'r egwyddorion a'r safonau allweddol ar gyfer comisiynu effeithiol mewn un ddogfen, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer y rôl;
e) mae'n darparu manylion y tu hwnt i'r hyn sydd yn y Ddeddf neu Godau eraill ynghylch sut y dylai, a sut y mae'n rhaid i gomisiynwyr gynllunio i ddiwallu anghenion pobl sydd angen gofal a chymorth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar feithrin cysylltiadau;

- mae'r risgiau sy'n codi o'r darpariaethau o dan themâu 1 a 2 yn risgiau cynhenid yn y system gan fod y darpariaethau hyn eisoes wedi'u gwreiddio yn y Ddeddf ac felly dylai'r Fframwaith, ynghyd â'r pecyn cymorth a chefnogaeth y Swyddfa Genedlaethol, helpu i liniaru rhai o'r

risgiau hyn drwy ddarparu arweiniad ac eglurder pellach ar sut i gyflawni'r dyletswyddau a'r egwyddorion cyffredinol yn y Ddeddf;

- mae'r problemau sylweddol parhaus y mae partneriaid statudol yn eu hwynebu o ran y galw cynyddol, y gweithlu, cyllid ac adnoddau'n peri risg gwirioneddol i allu a **chapasiti** comisiynwyr i fodloni'r darpariaethau o dan thema 3, felly bydd angen i'r Swyddfa Genedlaethol fonitro'r agwedd hon o'r Cod yn ofalus yn ystod y cyfnod gweithredu, a bwydo'r dystiolaeth o'r monitro a'r gwerthuso hwnnw i'r adolygiad o'r Cod bob dwy flynedd, a bydd angen ymdrin â'r materion yn drwy gyflwyno canllawiau comisiynu anstatudol atodol o bryd i'w gilydd.

1.72. Fel y nodwyd uchod, rydym yn disgwyl felly y bydd costau gweinyddol cymharol fach wrth bontio i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Bydd y rhain yn cynnwys costau hyfforddi staff h.y. comisiynwyr ac aelodau staff cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â chyflawni a gweithredu yn unol â'r Cod a chostau dosbarthu gwybodaeth.

<u>Y Swyddfa Genedlaethol</u>

1.73. Rhaid i'r Swyddfa Genedlaethol weithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan roi gwerth am arian. Bydd yn defnyddio ei hadnoddau dynodedig mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy, ac o fewn ei therfynau dynodedig sydd wedi'u cytuno ac yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â rheoli, rhagolygon, ac adrodd ariannol.

1.74. Mae'n debygol y bydd y brif gost ychwanegol a ragwelir yn gysylltiedig â'r trefniadau'n ymwneud ag adnoddau. Bydd unrhyw weithgarwch recriwtio sy'n gysylltiedig â'r Swyddfa Genedlaethol yn unol â phrosesau adnoddau Llywodraeth Cymru ac yn cydymffurfio â pholisi'r gwasanaeth sifil ehangach, a Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil. Er y gallai fod angen rhywfaint o gyllid ychwanegol i gyflawni swyddogaethau newydd a fydd yn rhan o waith y Swyddfa Genedlaethol, (h.y. goruchwylio'r pecyn cymorth ar gyfer y Cod Ymarfer Gofal a Chymorth Comisiynu), mae hyn yn debygol o fod o fewn cylch/cylchoedd gwaith presennol cyllideb gytunedig Llywodraeth Cymru ac felly bydd unrhyw gostau ychwanegol posibl sy'n cael eu hysgwyddo yn debygol o fod yn fach iawn.

<u>Y Cod Rhan 2</u>

1.75. Nid oes unrhyw oblygiadau cost uniongyrchol penodol i awdurdodau lleol yn gysylltiedig â diwygio Cod Rhan 2. Mae'r newidiadau naill ai'n diweddaru'r cod yng ngoleuni canllawiau ac ymarfer atodol sy'n bodoli eisoes (e.e. yn ymwneud ag asesiad o anghenion y boblogaeth) neu'n atgyfnerthu a rhoi mwy o ffocws i'r gofynion a'r canllawiau presennol (e.e. ar y ddyletswydd adran 16 i hyrwyddo ac ar gydgynhyrchu). Ni fyddai beichiau newydd yn cael eu gosod ar awdurdodau lleol, ac nid yw'r newidiadau'n ddigon sylweddol i ddod ag unrhyw gostau gweithredu ychwanegol yn eu sgil.

1.76. Nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw gostau i awdurdodau lleol wrth gyflawni gofynion y Ddeddf, gan gynnwys bodloni'r gofynion yn y Cod Rhan

2: fel y daeth yn amlwg o’r ymatebion i’r ymgynghoriad gan awdurdodau lleol a’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae problemau adnoddau sylweddol ar draws maes gofal cymdeithasol o hyd, a bydd angen adnoddau ychwanegol o ran amser, pobl ac arian os yw awdurdodau lleol am barhau i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel yn unol ag egwyddorion y Ddeddf. Fodd bynnag, ni ddylai’r adolygiad cyffyrddiad ysgafn hwn o God Rhan 2 ychwanegu at y pwysau adnoddau parhaus hynny na’i waethygu.

1.77. Ni ddylai’r penderfyniad i ychwanegu ‘pobl sy’n profi digartrefedd’ at y rhestr o grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth sydd i’w cynnwys yn yr adroddiadau asesiadau o anghenion y boblogaeth roi unrhyw feichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol. Mae Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth ddigartrefedd at ddibenion atal ac ymateb i ddigartrefedd, ac mae’r Cod Rhan 2 a gyhoeddwyd yn 2015 yn dweud eisoes y dylai’r asesiad o anghenion y boblogaeth lywio cynhyrchu’r strategaeth hon, o gofio bod pobl yr effeithir arnynt, neu sydd mewn perygl o gael eu heffeithio, yn debygol o fod ag anghenion gofal a chymorth. Bydd ychwanegu pobl ddigartref yn benodol at y rhestr o grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth yn helpu i gryfhau’r canllawiau hyn, ac yn sicrhau hefyd bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu arfer goruchwyliaeth ranbarthol strategol o ran darparu gofal a chymorth i’r grŵp hwn o bobl.

**Mecanwaith**

1.78. Mae’r cynigion yn y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn cynnwys casgliad o gynigion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol. Cânt eu disgrifio’n unigol yn adran ‘Cyflwyniad’ y ddogfen hon.

1.79. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi fel Cod Ymarfer statudol o dan Adran 145 o Ddeddf 2014 a bydd yn cynnwys canllawiau hefyd o dan Adran 169 o Ddeddf 2014 a chanllawiau o dan Adran 2 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Er mwyn sicrhau bod gan y Cod rym cymharol mewn perthynas ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG, bydd Gweinidogion Cymru’n cyfarwyddo byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau’r GIG o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 i arfer eu swyddogaethau perthnasol yn unol â’r gofynion yn y Cod.

1.80. Bydd Cod Ymarfer Rhan 2 yn god statudol a gyhoeddir o dan adran 145 o Ddeddf 2014 a bydd yn dirymu Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) a gyhoeddwyd yn 2015. Mae Pennod 2B ar asesiadau o anghenion y boblogaeth yn ganllaw statudol ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd a gyhoeddwyd o dan adran 169 o Ddeddf 2014.

1.81. Cyhoeddwyd Memoranda Esboniadol sy'n cynnwys Asesiadau Effaith Rheoleiddiol llawn ochr yn ochr â'r Codau Ymarfer ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol a Rhan 2 pan osodwyd hwy gerbron y Senedd ym mis Mawrth 2024. Mae mân ddiweddariadau wedi’u gwneud i’r Memoranda Esboniadol i adlewyrchu’r ffaith i’r Codau gael eu tynnu yn ôl ac yna eu hailosod ar 11

Mehefin.  Mae’r dogfennau wedi'u diweddaru wedi’u cyhoeddi i gyd-fynd â gosod y codau drafft diwygiedig ar 11 Mehefin 2024.

## Adran 7: Cofnod o’r asesiadau effaith llawn sy’n ofynnol

7.1. Paratowyd yr asesiadau effaith llawn canlynol a byddant yn cael eu cyhoeddi gyda’r Asesiad Effaith Integredig hwn:

a) Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant
b) Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb
c) Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

## Adran 8: Casgliad

**Sut mae’r bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi cyfrannu at y gwaith o’i ddatblygu?**

8.1. Mae’r adrannau ‘Cydweithio’ a ‘Cyfranogiad’ yn Adran 1.3 y ddogfen hon yn disgrifio sut y datblygwyd pob cynnig yn y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth gyda chyfranogiad rhanddeiliaid allweddol, yn y cyfnod cyn yr ymgynghoriad ffurfiol yn 2023. Mae hyn wedi golygu cynnwys pobl mewn amryw o Grwpiau Technegol a Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a gynullwyd i gyd-ddatblygu a llywio’r cynigion.

8.2. Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos yn gyfle pellach i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bob elfen o’r Rhaglen Ailgydbwyso, a chael adborth ganddynt. Cafodd yr ymatebion eu hystyried yn ofalus gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a chyhoeddwyd adroddiad Crynodeb o’r Ymatebion[2] ar 27 Tachwedd 2023.

**Beth yw’r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

8.3. Nodir yr effeithiau mwyaf arwyddocaol yn y cynigion yn yr adran ‘Effaith’ yn Adran 1 y ddogfen hon.

Y Fframwaith Cenedlaethol

8.4. Mae gan y Fframwaith yr un nodau ac amcanion â’r Ddeddf, sy’n cael ei hystyried yn eang fel y ddeddfwriaeth gywir o’i gweithredu’n effeithiol. Mae rhai o’r rhwystrau i’r gweithredu hwnnw ynghlwm wrth y diffyg cysondeb a chymhlethdod wrth gomisiynu gofal a chymorth. Felly, oherwydd bod y Fframwaith yn ceisio lleihau cymhlethdod, cynyddu cysondeb ac ailgydbwyso gofal a chymorth i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau yn hytrach na’r gost, o’i weithredu’n effeithiol, disgwylir iddo chwalu rhai o’r rhwystrau hynny a helpu partneriaid statudol i wireddu nodau’r Ddeddf.

[2] https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-ailgydbwyso-gofal-chymorth

Disgwylir mai dyma fydd yr effaith gadarnhaol fwyaf y bydd y Cod yn ei chael.

8.5. Rydym yn disgwyl i effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol y Fframwaith Cenedlaethol darddu o'r canlynol:

a) darpariaethau'r Cod i gryfhau'r dyletswyddau yn y Ddeddf ymhellach ar bartneriaid statudol;
b) cymhwyso'r Cod i awdurdodau lleol a byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG a fydd yn helpu i hwyluso'r cysondeb wrth gomisiynu ar draws y sector y mae'r Cod yn ceisio ei gyflawni h.y. bod pobl sydd angen gwasanaethau gofal a chymorth neu sy'n derbyn gofal a chymorth yn cael cysondeb, ni waeth gan bwy y mae'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei gomisiynu;
c) gwreiddio cydraddoldeb a hawliau dynol ymhellach i gryfhau'r dyletswyddau cyffredinol yn y Ddeddf ac mewn deddfwriaeth arall sy'n cynnwys hawliau plant, gyda'r disgwyliad, fel y maent yn cael eu nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, y caiff effaith gadarnhaol ar sicrhau bod gwasanaethau gofal a chymorth yn cefnogi cynnal a gwireddu hawliau;
d) yr egwyddorion a'r safonau ar gyfer comisiynu y disgwylir iddynt fod yn ffactor allweddol wrth gyflawni nod y Cod i leihau cymhlethdod, hwyluso cysondeb cenedlaethol arferion comisiynu ac ailgydbwyso comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau;
e) sut mae'r Cod yn cyd-fynd â'r darpariaethau yng Nghod Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol a Chanllawiau Statudol Rhan 9 ar Drefniadau Partneriaeth a fydd yn helpu i gael effaith gadarnhaol ar integreiddio, cydweithio a gweithio mewn partneriaeth; a
f) aliniad a chyfraniad at gefnogi amcanion polisi ehangach megis gwaith teg, trawsnewid gwasanaethau plant a rhaglenni Llywodraeth Cymru ar ddata a datgarboneiddio.

8.6. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.

<u>Y Swyddfa Genedlaethol</u>

8.7. Mae effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol y Swyddfa Genedlaethol yn ymwneud â'i hamcanion strategol, gan gynnwys hyrwyddo integreiddio i greu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor. Mae effeithiau cadarnhaol posibl eraill y Swyddfa Genedlaethol yn cynnwys darparu cyfeiriad cenedlaethol i alluogi gwell canlyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol posibl.

<u>Y Cod Rhan 2</u>

8.8. Mae'n debygol mai effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol diwygio Cod Rhan 2 fydd egluro dyletswydd Adran 16 i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector, a mwy o bwyslais ar ymgysylltu â dinasyddion, llais a chydgynhyrchu. Effaith bwysig arall yw'r ymgais i alinio'r

negeseuon hyn yng Nghod Rhan 2 yn agosach â'r trefniadau partneriaeth rhanbarthol yn y diweddariad i Ganllawiau Statudol Rhan 9, sy'n rhan o'r Rhaglen Ailgydbwyso hefyd. Gyda'i gilydd, dylai'r rhain annog ac ysgogi mwy o gydweithio ac arloesi o ran ailgydbwyso'r farchnad gofal cymdeithasol, gan arwain at ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth ac ataliol sy'n diwallu anghenion unigolion yn well, ac sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol.

**Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut fydd y cynnig yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu'n osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

8.9. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i brofi rhagdybiaethau'r effeithiau a nodwyd yn ein hasesiad gwreiddiol. Ystyriwyd effeithiau posibl pellach yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac maent wedi helpu i lunio fersiynau terfynol y Fframwaith Cenedlaethol a Chod Rhan 2, yn ogystal â llywio ein cynlluniau ar gyfer sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol.

8.10. Uchod, rydym wedi nodi effeithiau allweddol y cynigion, sy'n gadarnhaol gan mwyaf, gan gynnwys sut maen nhw'n cyd-fynd â'r nodau llesiant. Ar gyfer y prif effeithiau negyddol o ran yr heriau gweithredu, byddwn yn cefnogi ac yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod unrhyw feichiau gweithredu'n cael eu lleihau cyn belled ag y bo'n ymarferol.

**Sut caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r broses symud yn ei blaen a phan gaiff ei chwblhau?**

8.11. Mae cynigion yn y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth yn cael eu monitro'n fewnol drwy fwrdd rhaglen. Mae'n goruchwylio gweithredu a datblygu'r cynigion hyn, ynghyd â llywodraethu'r rhaglen.

<u>Y Fframwaith Cenedlaethol</u>

8.12. Bydd gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth rôl allweddol wrth weithredu a monitro a gwerthuso'r Fframwaith Cenedlaethol yn barhaus. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn chwarae rôl allweddol wrth adolygu a diweddaru'r Cod oddeutu bob dwy flynedd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag arferion comisiynu presennol, gyda chanllawiau anstatudol yn cael eu darparu (os oes angen) rhwng adolygiadau eilflwydd ffurfiol y Cod. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn parhau i ymgysylltu â Chomisiwn Hawliau Dynol Ewrop i sicrhau bod y Fframwaith Cenedlaethol yn effeithiol wrth sicrhau bod arferion comisiynu'n hyrwyddo a gwella materion cydraddoldeb a hawliau dynol.

8.13. Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Fframwaith, byddwn yn rhoi pecyn cymorth digidol cenedlaethol o ddogfennau arfer da ar waith i gefnogi comisiynwyr i gyflawni yn erbyn yr egwyddorion a'r safonau a nodir yn y cod. Bydd y Pecyn Cymorth hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n fyw ac yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi comisiynwyr i ddarparu'r Cod yn

effeithiol. Mae swyddogaeth monitro'r Swyddfa Genedlaethol yn cefnogi ac yn arwain ar ddiweddaru'r Pecyn Cymorth.

8.14. Bydd adolygu effeithiolrwydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cynnwys asesiad parhaus o brofi a oedd y casgliadau a wnaed ynghylch yr effaith ddisgwyliedig yn gywir. Bydd yr holl asesiadau effaith perthnasol yn cael eu diwygio a'u diweddaru yn unol â'r monitro hwn a chaiff fersiynau wedi'u diweddaru eu cyhoeddi o leiaf bob dwy flynedd yr un pryd ag y bydd gwelliannau i'r Cod yn cael eu hystyried.

Y Swyddfa Genedlaethol

8.15. Bydd ymrwymiad parhaus i gydgynhyrchu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a mewnbwn gan ddefnyddwyr gwasanaethau'n parhau i fod yn fecanweithiau allweddol ar gyfer ystyried a mesur effaith wrth i'r Swyddfa Genedlaethol aeddfedu.

Y Cod Rhan 2

8.16. Mae ffynonellau gwybodaeth amrywiol a fydd yn helpu Llywodraeth Cymru i adolygu a yw'r diwygiadau i God Rhan 2 yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf. Caiff y rhain eu nodi yn y Memorandwm Esboniadol / Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Adran 8), sy'n cael ei gyhoeddi ar wahân. Yn unol ag arfer da sefydledig ar is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad o sut mae Cod Rhan 2 diwygiedig yn cael ei weithredu ymhen tair blynedd (erbyn Mehefin 2027).

## Adran 9: Datganiad

9.1. Rwy'n fodlon bod effaith y camau gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

**Enw'r Uwch Swyddog Cyfrifol:**
Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru

Dyddiad: 10 Mehefin 2024

**Tabl 1**

**Y Fframwaith Cenedlaethol – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

| **Dyddiad y cyfarfod** | **Rhanddeiliad** | **Cynnwys** |
|---|---|---|
| 28 Mehefin 2023 | Rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, aelodau o'r Bwrdd Iechyd Lleol | **Digwyddiad ymgynghori** ailgydbwyso gofal a chymorth Llywodraeth Cymru – Gogledd Cymru (rhithwir) |
| 6 Gorffennaf 2023 | Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Cyfarfod rhagarweiniol gyda'r Dirprwy Weinidog – trafodwyd meysydd ymgynghori gan gynnwys cysylltu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol/Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r fframwaith comisiynu. |
| 10 Gorffennaf 2023 | Cynghrair Henoed Cymru | Tynnu sylw at yr ymgynghoriad ailgydbwyso yn fyw ac annog cwblhau ymateb ffurfiol. Canolbwyntio ar faterion comisiynu a thrydydd sector. |
| 11 Gorffennaf 2023 | Rhanddeiliaid amrywiol gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol, aelodau o'r Bwrdd Iechyd Lleol | **Digwyddiad ymgynghori** ailgydbwyso gofal a chymorth Llywodraeth Cymru – De Cymru (wyneb yn wyneb) |
| 13 Gorffennaf 2023 | Cynghrair Pobl Hŷn Cymru | Cyflwyniad am gynlluniau diwygio gofal cymdeithasol / tynnu sylw at yr ymgynghoriad. |
| 19 Gorffennaf 2023 | Cartrefi Cymunedol Cymru a chymdeithasau tai eraill | Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – cyflwyniad gan swyddogion Llywodraeth Cymru yna sesiwn holi ac ateb. |
| 21 Gorffennaf 2023 | Bwrdd Gweithredol y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol, ADSSC, Fforwm Gofal Cymru, Conffederasiwn y GIG | Cyfarfod Grŵp Llywio'r Swyddfa Genedlaethol – tynnu sylw at yr ymgynghoriad yn ystod trafodaethau. |
| 25 Gorffennaf 2023 | Amanda Mutlow, Cyfarwyddwr Strategol, Llais | Trafodwyd sut i sicrhau bod lleisiau'r gwasanaethau iechyd a gofal yn ymwybodol o'r gwaith, a'u hannog i ymateb i'r ymgynghoriad – cytunodd Amanda i ddosbarthu deunyddiau i swyddfeydd rhanbarthol. |
| 5 – 12 Awst 2023 | Eisteddfod Genedlaethol | Cynnwys diweddariad ar y rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth mewn cyflwyniad PowerPoint gofal cymdeithasol i'w ddangos ar stondin LlC. |

| | | |
|---|---|---|
| 10 Awst 2023 | Age Cymru – digwyddiad ymgysylltu â phobl hŷn | Y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – cyflwyniad gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar Teams, yna sesiwn holi ac ateb. |
| 27 Chwefror 2024 | Cyfarfod Fforwm Gwaith Teg | Ail ddiweddariad ar y rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. |
| 29 Chwefror 2024 | Cyfarfod ag UNSAIN a TUC Cymru. | Trafodaeth am faterion gweithlu sy'n ymwneud â'r Fframwaith Cenedlaethol. |